







- iii. Dylid cynhyrchu asesiad risg penodol, gan ystyried cyngor yr FCO a gwybodaeth awdurdodol arall, a'r gweithgareddau a theithio yn y wlad neu'r rhanbarth.
  - iv. Unwaith y bydd y dogfennau wedi'u cwblhau, rhwch wybod i Swyddog Yswiriant y Brifysgol a fydd yn cadarnhau'r yswiriant ar gyfer teithio neu fel arall. Bydd y Swyddog Yswiriant hefyd yn cysylltu ag Iechyd a Diogelwch, Llywodraethu a Chydymffurfio.
  - v. Yna gall y Deon/Cyfarwyddwr awdurdodi teithio.  
Os yw'r Deon neu'r Cyfarwyddwr yn dymuno teithio, bydd y Dirprwy Is-ganghellor yn cymeradwyo teithio.
- b. Lle mae'r FCO yn cynghori yn erbyn unrhyw deithio.
- i. Rhaid i'r Deon/Cyfarwyddwr ddarparu dogfennau i'r Grŵp Tasg Rheoli Iechyd, Diogelwch ac Argyfyngau perthnasol, ar ran y teithiwr, a chadarnhau eu cefnogaeth i deithio.
  - ii. Dylid gwneud pob cais am deithio i'r Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad gadael arfaethedig.
  - iii. Fel rheol, dim ond os yw'r gweithgaredd dan reolaeth Asiantaeth Ddyngarol neu Lywodraethol Ryngwladol, neu'n defnyddio rheolaethau tebyg, y bydd teithio i wledydd a rhanbarthau o'r fath yn cael ei awdurdodi.
- c. Teithio i Wlad neu Ranbarth Cartref
- Gall staff neu fyfyrwyr sydd eisiau dychwelyd i'w gwlad gartref i wneud ymchwil/gwaith, a bod gan y wlad dan sylw gyfyngiadau teithio gan yr FCO i ddinasyddion o'r Deyrnas Unedig, gael caniatâd i deithio ar yr amod y cyflawnir meini prawf penodol.
- i. Dim ond yn y wlad/rhanbarth cartref hwnnw y gellir cyflawni'r ymchwil / gwaith neu mai bwriad y partner cyllido/noddwr bob amser oedd cynnal yr ymchwil yn y wlad/rhanbarth cartref hwnnw.
  - ii. Nid yw'r ymchwil/gwaith yn rhoi'r unigolyn ar lefel sylweddol uwch o risg o'i gymharu â'r risgiau y byddent yn agored iddynt pe bai'n dychwelyd i fyw ac yn gwneud ei waith arferol yn y wlad/rhanbarth cartref hwnnw.
  - iii. Mae gan yr unigolyn basbort dilys ar gyfer y wlad honno.
  - iv. Mae'r Ffurflen Yswiriant Teithio ar-lein wedi'i llenwi, ynghyd ag Asesiad Risg ychwanegol, sy'n ystyried gweithgareddau a theithio a diogelwch yn y wlad.
  - v. Unwaith y bydd y dogfennau wedi'u cwblhau, rhwch wybod i Swyddog Yswiriant y Brifysgol a

